# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 29 Ionawr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

5 Cwestiynau i un o gynrychiolwyr Comisiwn y Cynulliad

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch p'un ai a yw'r iawndal ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer dioddefwyr Thalidomide yn mynd i arwain at unrhyw symiau canlyniadol Barnett. (WAQ55515)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Mae'r Adran Iechyd wedi darparu arian ar gyfer goroeswyr Thalidomid o'i chyllideb gyffredinol a bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi derbyn arian canlyniadol o dan fformiwla Barnett.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch gweithredu amcanion strategol eu dogfen 'Going for Growth: Our Future Prosperity'. (WAQ55505)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Rwyf yn trafod yn rheolaidd â Gweinidogion yn Whitehall ynglŷn ag ystod o faterion. Byddwn yn ystyried a fydd nodau strategol 'Mynd am Dwf: Ein Ffyniant at y Dyfodol' yn effeithio ar Gymru, ac os felly sut.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer y cynllun ProAct pan fydd y £48m a ddyrannwyd wedi cael ei wario. (WAQ55510)***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Yn seiliedig ar ragolygon gwariant cyfredol mae swyddogion yn ystyried opsiynau i ymestyn yr amserlen y tu hwnt i fis Mawrth 2010 ar gyfer ceisiadau ProAct ac maent yn datblygu cynllun i'w olynu er mwyn sicrhau bod arian ProAct yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf. Bydd cwmpas unrhyw gynllun olynol yn seiliedig ar yr arian sydd ar gael a'r sefyllfa economaidd ar y pryd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gyd-Weinidogion am raglenni posibl i olynu ProAct. (WAQ55511) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

**Lesley Griffiths:** Mae olynydd posibl wrthi'n cael ei ddatblygu sy'n ymgorffori canfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol, adborth gan gyflogwyr ac argymhellion gan randdeiliaid. Yn dilyn trafodaethau â WEFO, caiff cais ei gyflwyno i Weinidogion ac yn amodol ar ei gymeradwyo caiff ei gyflwyno yn yr uwchgynhadledd economaidd nesaf.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau p’un ai a yw Asesu’r Effaith ar Iechyd yn broses orfodol ar gyfer prosiectau priffyrdd ledled Cymru, ac os felly, pryd y daethant yn rhan o’r broses honno. (WAQ55512)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Nid yw Asesiadau Effaith Iechyd yn broses orfodol i brosiectau priffyrdd yng Nghymru.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu at yr iawndal ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, ar gyfer dioddefwyr Thalidomide yng Nghymru, ac os felly (a) faint fydd hyn yn ei gostio; a (b) ai o gyllideb y flwyddyn ariannol hon y bydd yn dod. (WAQ55514)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Mae'r cyllid a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd ar gyfer cynllun a gwerthusiad peilot 3 blynedd sy'n canolbwyntio ar Loegr yn unig. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Wasanaethau Iechyd yn yr Adran Iechyd wedi dweud wrthyf fod yr Ymddiriedolaeth Thalidomid yn bwriadu defnyddio'i chyllid i sicrhau y diwellir anghenion pob un o'i buddiolwyr yn gyfartal ac yn unol â'u hanghenion, yn hytrach na ble y maent yn byw. Wrth gwrs byddaf yn cynnal trafodaethau pellach ar y mater hwn.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae’r Gweinidog wedi’u cyflwyno i S4C am y penderfyniad i roi’r gorau i ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn fyw ar y teledu. (WAQ55503)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gan S4C am y penderfyniad i roi’r gorau i ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn fyw ar y teledu. (WAQ55504)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Y BBC wnaeth y penderfyniad i beidio â darlledu trafodion y Cynulliad yn fyw ar y teledu. Lansiodd y BBC y gwasanaeth newydd 'Democratiaeth Fyw' ar ddechrau mis Tachwedd 2009. Ar y pryd, cyfarfûm â'r BBC a roddodd wybod i mi eu bod wedi cysylltu â holl Aelodau'r Cynulliad yn rhoi manylion am y gwasanaeth ar-lein newydd sy'n darlledu'n fyw o'r Cynulliad.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod y Canolbarth yn cael cyllid effeithiol ar gyfer y celfyddydau. (WAQ55506)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Caiff arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y celfyddydau ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC), sy'n gweithredu hyd braich o'r Llywodraeth. Nid wyf, felly, yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ariannu unigol. Mae fy mlaenoriaethau strategol ar gyfer y celfyddydau wedi eu nodi yn Llythyr Cylch Gwaith blynyddol CCC.

Rwyf wedi gofyn i CCC gynnal adolygiad strategol o sut y mae'n ariannu'r celfyddydau ledled Cymru. Disgwylir i'r Adolygiad buddsoddi hwn gael ei gwblhau yn ystod haf 2010. Caiff canfyddiadau'r Adolygiad eu cyhoeddi yn fuan wedyn gyda'r nod o roi unrhyw argymhellion ar waith yn ystod 2011-12.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau cyllid effeithiol ar gyfer Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy. (WAQ55507)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Canolfan Gelfyddydau Wyeside yn gleient Refeniw i Gyngor Celfyddydau Cymru a chaiff £67,381 mewn arian refeniw yn ystod 2009-10. Caiff cyllid 2010-11 ei gyhoeddi'n fuan a, thu hwnt i'r cyfnod hwnnw, bydd unrhyw arian a gaiff Wyeside gan CCC yn dibynnu ar ganlyniadau Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru, y cyhoeddir ei argymhellion yn ystod haf 2010.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod Theatr Brycheiniog yn cael cyllid effeithiol. (WAQ55508)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Theatr Brycheiniog yn gleient Refeniw i Gyngor Celfyddydau Cymru a chaiff £180.757 mewn arian refeniw yn ystod 2009-10. Caiff cyllid 2010-11 ei gyhoeddi'n fuan a, thu hwnt i'r cyfnod hwnnw, bydd unrhyw arian a gaiff Theatr Brycheiniog gan CCC yn dibynnu ar ganlyniadau Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru, y cyhoeddir ei argymhellion yn ystod haf 2010.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth yn cael cyllid effeithiol. (WAQ55509)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth yn gleient Refeniw i Gyngor Celfyddydau Cymru a chaiff £513,722 mewn arian refeniw yn ystod 2009-10. Caiff cyllid 2010-11 ei gyhoeddi'n fuan a, thu hwnt i'r cyfnod hwnnw, bydd unrhyw arian a gaiff Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth gan CCC yn dibynnu ar ganlyniadau Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru, y cyhoeddir ei argymhellion yn ystod haf 2010

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Brian Gibbons (Aberafan):** Yng ngoleuni ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar wasanaethau bancio Swyddfa’r Post, a all y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am ba rôl y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweld Undebau Credyd yn ei chwarae petai gwasanaethau bancio Swyddfa’r Post yn cael eu hehangu yn y dyfodol yng Nghymru. (WAQ55513)

***Rhoddwyd ateb ar 02 Mawrth 2010***

Rydym yn croesawu bod Llywodraeth y DU yn cydnabod yr angen am gysylltiadau agosach rhwng undebau credyd a swyddfeydd post. Mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi undebau credyd a swyddfeydd post. Mae gan lawer o undebau credyd yng Nghymru gytundebau â'u swyddfeydd post lleol sy'n caniatáu i'w haelodau newid sieciau am arian parod a roddir gan yr undeb credyd mewn Swyddfa Bost leol.

Byddai partneriaeth rhwng undebau credyd a rhwydwaith swyddfa'r post a fyddai'n galluogi aelodau undebau credyd i fanteisio ar wasanaethau mewn dull fforddiadwy drwy rwydwaith swyddfa'r post o fudd i'r ddwy ochr, gydag undebau credyd a'u haelodau yn cael budd o gwell hygyrchedd, cyfleustra a phroffil uwch, a rhwydwaith swyddfa'r post yn cael budd o gael mwy gwsmeriaid yn ei changhennau ac o bosibl ffrwd arian newydd.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag undebau credyd ledled Cymru a gyda Chymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig (ABCUL) i ystyried y posibilrwydd o lunio un cytundeb fframwaith partneriaeth rhwng undebau credyd Cymru a Swyddfa'r Post Cyf.

## *Gofyn i un o gynrychiolwyr Comisiwn y Cynulliad*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae Comisiwn y Cynulliad wedi’u cyflwyno i S4C am y penderfyniad i roi’r gorau i ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn fyw ar y teledu. (WAQ55501)

***Rhoddwyd ateb ar 01 Chwefror 2010***

**Comisiynydd y Cynulliad a’r Dinseydd, Peter Black AC:** Cafodd y penderfyniad i roi’r gorau i ddarlledu trafodion y Cynulliad yn fyw ei wneud gan BBC Cymru ar ddiwedd tymor yr Haf, mis Gorffennaf 2009.
Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, rydym wedi gweithio’n agos gyda BBC Cymru, ac yn parhau i wneud hynny, ar ddatblygu eu safle Democratiaeth Fyw, a gafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2009. Democratiaeth Fyw yw’r porth ar-lein newydd sy’n darlledu trafodion holl ddeddfwrfeydd y DU, gan gynnwys y Cynulliad.
Gall y cyhoedd weld y trafodion hefyd drwy sianel deledu BBC Parliament a darpariaeth weddarlledu’r Cynulliad ei hun, sef Senedd.tv. Mae’r gallu i chwilio sydd gan y ddarpariaeth hon wedi gwella llawer erbyn hyn ac mae’n cynnwys y gallu i ddarlledu’r holl drafodion busnes, gan gynnwys pwyllgorau’r Cynulliad. Mae Senedd.tv hefyd yn cynnwys digwyddiadau’r Cynulliad sydd ar ffilm, ynghyd â datganiadau i’r wasg ar ffurf sain a fideo. Mae hyn, felly, yn gwella’r sylw y gallwn ni ein hunain ei roi i drafodion y Cynulliad.
Rydym yn parhau mewn trafodaethau ag S4C o ran darlledu trafodion y Cynulliad ar sianelau teledu S4C, ac mae’r Comisiwn yn obeithiol o hyd y gellir cael mwy o ffyrdd o wylio a gwrando ar ei drafodion yn y dyfodol agos.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae Comisiwn y Cynulliad wedi’u cael gan S4C am y penderfyniad i roi’r gorau i ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn fyw ar y teledu. (WAQ55502)

***Rhoddwyd ateb ar 01 Chwefror 2010***

**Comisiynydd ar gyfer y Cynulliad a’r Dinesydd, Peter Black AC:**

Yn dilyn y penderfyniad i beidio â darlledu darllediadau byw o drafodion y Cynulliad ar S4C2, mae’r Cynulliad wedi derbyn:
- 10 cwyn gan aelodau’r cyhoedd;
- 30 ymholiad pellach i linell gwybodaeth i’r cyhoedd y Cynulliad ynghylch gallu gweld y trafodion yn fyw; a
- gohebiaeth gan bedwar Aelod Cynulliad.

Mae mwyafrif yr ohebiaeth yn canolbwyntio ar bryderon ynglŷn â hygyrchedd darparu’r trafodion yn fyw ar-lein yn unig ac yn gofyn a oes unrhyw gynlluniau ar gyfer darlledu’r trafodion ar sianel arall yn y dyfodol.

Mae'r trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gydag S4C ynghylch darlledu trafodion y Cynulliad ar ei sianeli teledu yn parhau ac mae'r Comisiwn yn parhau i fod yn ffyddiog y bydd y ddarpariaeth yn cael ei ehangu yn y dyfodol agos.